




Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033

Papur Cefndir



Mai 2019

PC 37: Mwynau

Mae'r ddogfen hon ar gael i'w gweld a'i lawrlwytho ar wefan y Cyngor ar: www.conwy.gov.uk/cdlln. Mae copïau hefyd ar gael i'w gweld yn y prif lyfrgelloedd a swyddfeydd y Cyngor a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, Coed Pella, Ffordd Conwy, Bae Colwyn, LL29 7AZ neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech gael gair â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd o'r ddogfen hon, cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar (01492) 575181 / 575445 / 575124 / 574232.

Gellir darparu'r ddogfen hon ar Gryno Ddisg, yn electronig neu mewn print bras a gellir ei chyfieithu i ieithoedd eraill. Cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575461.

Cynnwys

1.	Rhagarweiniad.....	4
2.	Cyd-destun Polisi.....	4
3.	Canfyddiadau'r Adroddiad Monitro Blynyddol.....	5
4.	Newidiadau Cyd-destunol	5
5.	Diogelu	6
6.	Cyflenwad Mwynau.....	8
7.	Parthau Clustogi	8
8.	Monitro.....	9
9.	Materion Trawsffiniol.....	9
	Atodiad 1 – Cysylltiadau â Pholisi Cynllunio Cymru.....	11

1. Rhagarweiniad

- 1.1 Paratowyd y papur cefndir hwn i gefnogi datblygiad Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) 2018-2033. Diben y papur yw adolygu sylfaen dystiolaeth datblygu'r CDLI a darparu unrhyw dystiolaeth ychwanegol. Mae mwynau yn elfen bwysig o economi Conwy gyda nifer o safleoedd o bwysigrwydd strategol wedi eu lleoli o fewn y Fwrdeistref Sirol. Y mwynau o werth economaidd yng Nghonwy yw agregau creigiau mâl yn bennaf. Mae mwynau yn hanfodol i'r diwydiant adeiladu, felly mae parhau i'w cyflenwi yn hanfodol i gyflawni'r CDLIN er mwyn sicrhau datblygiad cynaliadwy a'r rheolaeth adnoddau sy'n angenrheidiol i ddiwallu dyheadau twf, dyheadau cymdeithasol a dyheadau economaidd. Mae mwynau'n adnodd cyfyngedig sydd i'w cael dim ond mewn mannau penodol. Mae'r pwysau cynyddol am ddatblygiadau heb fod yn fwynol yn her benodol.

2. Cyd-destun Polisi

- 2.1. Mae Polisi Cynllunio Mwynau Cymru wedi'i gynnwys ym Mholisi Cynllunio Cymru, fodd bynnag mae'r cynnwys hwn yn aros yr un fath. Mae Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1 a 2 hefyd yn aros yr un fath. Mae MTAN 1 yn cynghori lle mae banciau tir eisoes yn darparu ar gyfer mwy nag 20 mlynedd o echdynnu agreg, ni fydd angen dyraniadau newydd. Fodd bynnag, mae Llythyr Eglurhad CL-05-14 eisoes wedi cynghori nad yw hyn yn adlewyrchu cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol o 15 mlynedd, yr oblygiadau efallai na fydd yn ddigon i gasglu bod cael banc tir o 20 mlynedd neu fwy yn ddigon ac y byddai ond yn ddoeth dod i'r casgliad hwn os byddai yna fanc tir o 25 mlynedd neu fwy.
- 2.2. Mae'r Datganiad Technegol Rhanbarthol wedi'i adolygu ers mabwysiadu'r CDLI, yn Awst 2014. Fodd bynnag, nid yw'r casgliad o ran Conwy wedi newid ac ni nodwyd yr angen am ddyraniadau o dywod a graean neu graig wedi'i malu dros oes y CDLI. O ystyried maint y banciau tir o graig wedi'i malu ystyrir nad yw hyn yn debygol o newid. Er hynny, mae'r Datganiad Technegol Rhanbarthol yn cael ei adolygu am yr eildro a deallir y bydd yn cael ei gyhoeddi yn ystod cyfnod yr Adolygiad, ac mae'n bosibl y bydd angen dyraniad i ddiwallu unrhyw ddiffyg mewn grŵp rhanbarthol isranbarthol os na all awdurdodau lleol eraill wneud y ddarpariaeth angenrheidiol. Bydd y mater hwn yn cael ei gadw dan adolygiad ac mae'n bosibl y bydd angen cydweithio gydag awdurdodau lleol cyfagos..
- 2.3. Cyhoeddodd Arolwg Daearegol Prydain Fap Diogelu Agreg Cenedlaethol ym mis Tachwedd 2012 cyn mabwysiadu'r CDLI wnaeth dderbyn sylw gan y Cyngor yn ystod y broses archwilio. O ganlyniad i gyhoeddi'r Map roedd maint yr ardaloedd a nodwyd o dan y polisi diogelu wedi cynyddu a pharthau clustogi wedi eu gosod o amgylch yr ardaloedd i'w diogelu.
- 2.4. Mae disgwyl i'r CDLIN gyfrannu at anghenion mwynau rhanbarthol a lleol mewn modd cynaliadwy ac mae hyn wedi'i ymgorffori yn Amcan Strategol 11 (AS11) Mwynau a Gwastraff: cyfrannu at weithrediad yr economi cylchol, rheoli gwastraff gyda chyn lleied â phosibl o effaith ar yr amgylchedd a sicrhau'r defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol, yn cynnwys ar gyfer cynhyrchu ynni a darparu cyflenwad digonol o fwynau a deunyddiau ar gyfer adeiladu.

- 2.5. Yn ychwanegol, mae diogelu amwynder a'r amgylchedd wedi'i ymgorffori yn Amcan Strategol 15 (AS15) Dŵr, Aer, Sŵn a Golau: Lleihau Datguddiad i lygredd aer a sŵn, cydbwysu darpariaeth datblygu a goleuo i wella diogelwch, a diogelu'r amgylchedd dŵr ac adnoddau dŵr, yn cynnwys maint ac ansawdd dŵr wyneb a dŵr daear

3. Canfyddiadau'r Adroddiad Monitro Blynyddol

- 3.1. Mae'r monitro blynyddol wedi dangos bod nifer o ddatblygiadau wedi eu dal gan y polisi diogelu ond sy'n dderbyniol oherwydd bod yr adnodd naill ai wedi'i ddiheintio'n barod neu na wneir gwaith ar raddfa fasnachol arno oherwydd y dosbarthiad cyfyngedig. Rhan o'r broblem yng Nghonwy yw maint dosbarthiad dyddodion ynysig neu gul iawn sydd wedi eu hamlygu ar y wyneb, yn arbennig tywod a graean o ansawdd isel sy'n annhebygol iawn o gynnwys gwaith ar sail fasnachol oherwydd ei ddsbarthiad a materion hygrychedd.
- 3.2. Mae monitro wedi dangos bod yna adnoddau wrth gefn eang a ganiateir o fewn y Fwrdeistref Sirol sy'n diwallu'r angen a nodwyd gan y Datganiad Technegol Rhanbarthol dros gyfnod y Cynllun a thu hwnt. Mae yna nifer fechan o safleoedd, 3 yn weithredol gyda'i gilydd yn cynnwys dros 62 miliwn tunnell wrth gefn a ganiateir. Mae un safle a ganiateir, Chwarel Plas Gwilym wedi bod yn destun cais cynllunio ar gyfer tai, cyfeirnod 0/43938, a wrthodwyd ac yna gwrthodwyd ar ôl apelio. Cafodd y cais ei wrthod ar sail man agored ac nid oedd yn ymwneud â phresenoldeb mwynau a ganiateir. Nid oedd Swyddog Cydwasanaeth Mwynau a Gwastraff Gogledd Cymru yn gwrthwynebu'r cynnig a daeth i'r casgliad na fyddai'r datblygiad tai arfaethedig yn cael unrhyw effaith sylweddol ar hyfywedd unrhyw waith mwynau yn y dyfodol.

4. Newidiadau Cyd-destunol

- 4.1. Effeithiwyd ar y diwydiant mwynau gan y chwalfa economaidd yn 2008. Mae monitro rhanbarthol wedi cadarnhau bod gwerthiant ar draws y rhanbarth yn dal heb adfer yn llwyr erbyn 2016, ac yn parhau o dan lefelau 2007. Roedd y safleoedd gweithredol o fewn Conwy yn cyflenwi mwynau ar gyfer ystod o ddefnydd gwahanol gan gynnwys concrid. Mae'r galw am fwynau yn naturiol yn anwadal dros amser mewn ymateb i leoliad prosiectau adeiladu mawr, fodd bynnag, mae gostyngiad cyffredinol mewn adeiladu o ganlyniad i economi wannach wedi effeithio ar y safleoedd hyn mewn ffordd debyg i eraill ar draws y sir. Bu cyfnerthu sylweddol o fewn y diwydiant mwynau dros y ddau ddegawd diwethaf sydd wedi arwain at nifer llai o weithredwyr yn rheoli nifer o wahanol chwareli o fewn y rhanbarth. Yng Ngogledd Cymru, mae hyn wedi arwain at nifer o chwareli yn cau wrth i echdynnu ganolbwyntio ar nifer llai o safleoedd sy'n gadael ansicrwydd am y cymunedau yr effeithir arnynt.
- 4.2. Roedd Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar Bolisi Cynllunio Drafft Cymru 10. Mae'r newidiadau mwyaf i'r dulliau ar gyfer mwynau ynni. Nid oes yna adnoddau glo yng Nghonwy ac felly nid yw hyn yn berthnasol i'r Fwrdeistref Sirol. Mae datblygu nwy hefyd yn cael ei ystyried yn annhebygol oherwydd presenoldeb glo mwy hygrych methan ym meysydd glo Sir Ddinbych a Sir y Fflint.

5. Diogelu

Dull polisi presennol

- 5.1. Mae Polisi MWS/1 Mwynau a Gwastraff yn nodi bod rhai mwynau yn cael eu diogelu, gan gynnwys craig galed a thywod a graean. Mae Polisi MWS/3 yn bolisi mwy manwl sy'n egluro bod isadeiledd gan gynnwys glanfeydd a rheilffyrdd hefyd yn cael eu diogelu. Mae'r CDLI yn diogelu tywodfaen gyda'r potensial ar gyfer agreg, sy'n cael ei nodi fel mwynau Categori 1 o fewn y Mapiau Diogelu Agreg. Mae dosbarthu'r math hwn o fwyn ger yr wyneb yn gyfyngedig iawn yng Ngogledd Cymru o'i gymharu â De Cymru sydd â dyddodion helaeth. Mae dyddodion o fewn y Fwrdeistref Sirol yn fach, ynysig ac mewn lleoliadau lle mae pwysau datblygiad yn debyg o fod wedi'i gyfyngu i ddatblygiad amaeth a ffermydd gwynt. Mae defnyddio parth clustogi 200m wedi arwain at ardaloedd cymharol fawr yn cael eu diogelu sy'n ddiangen ac yn anghymesur. O ystyried yr uchod, argymhellir nad yw'r mwyn hwn yn cael ei ddiogelu mwyach drwy'r CDLI.
- 5.2. Mae tywod a graean categori 1 a 2 wedi eu diogelu drwy'r CDLI. Mae'r dyddodion yn dywod a graean o ansawdd mwy gwael, cul, yn dilyn afonydd ac o fewn y gorlifdir. Roedd astudiaeth a gyhoeddwyd yn 2004 yn ystyried adnoddau tywod a graean posibl yng Ngogledd Orllewin Cymru. Roedd dau floc o adnoddau yn Nyffryn Conwy, o'r de i Lanrwst heb fod ymhell o Gonwy, wedi eu nodi fel posibilrwydd, er bod tri chwarter y bloc yn Llanrwst eisoes wedi'i sterileiddio. Ychydig iawn a wyddys yn ddaeaeregol am y tywod a'r graean mewn mannau eraill, er o'r mapio Arolwg Ddaeaeregol Prydain deillir ei fod o ansawdd gwael yn gyffredinol ac yn gleiog yn lleol. Ni fu unrhyw bwysau i weithio ar y tywod a'r graean o fewn Conwy hyd yma. Hefyd ni fu unrhyw bwysau i weithio ar dywod a graean o ansawdd uchel o fewn Sir Ddinbych er gwaethaf fframwaith polisi cadarnhaol lle byddai echdynnu yn cael ei gefnogi. O ganlyniad i hyn, argymhellir mai tywod a graean Categori 1 yn unig a ddiogelir o fewn y Fwrdeistref Sirol. Mae dyddodion ynysig niferus bach o fewn y Fwrdeistref Sirol na fyddai'n hyfyw i weithio ar sail fasnachol. Unwaith y defnyddir byffer mae hyn yn arwain at ardal llawer mwy yn cael ei diogelu sy'n anghymesur ac yn ddiangen. Felly, argymhellir hefyd nad yw dyddodion bach, ynysig llai na 100m ar y pwynt lletaf yn cael eu diogelu.
- 5.3. Mae craig galed categori 1 a 2 (neu graig wedi'i malu) yn cael ei ddiogelu drwy'r CDLI, gan gynnwys calchfaen. Mae brigiadau calchfaen purdeb uchel ar Y Gogarth wedi'i ecsbloetio yn hanesyddol. Mae calchfaen o ansawdd llai wedi'i ddefnyddio'n hanesyddol yn Llanddulas, ac yn parhau i gael ei ddefnyddio o fewn y Fwrdeistref Sirol yn Chwarel Raynes a Llansan Sior. Mae'r un brigiad hefyd yn cael ei ddefnyddio yn Ninbych, Sir Ddinbych. Mae creigiau igneaid yn cael eu nodi fel Categori 2 ac yn cael eu defnyddio ym Mhenmaenmawr. Mae Penmaenmawr yn chwarel diorit oedd yn hanesyddol yn allforio balast rheilffordd i Loegr ar y rheilffordd, fodd bynnag, mae hyn wedi gostwng yn sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf. Er hynny, ystyrir oherwydd bod dosbarthiad cyfyngedig y deunydd hwn yng Nghonwy y tu allan i'r Parc Cenedlaethol, a bod yna les masnachol yn ei ddefnyddio, dylid ei ddiogelu o fewn y CDLI. Gall Penmaenmawr o bosibl gael ei adweithio i lefel uchel o gynhyrchu os digwydd i'r perchnogion presennol, Hanson, sicrhau contractau balast rheilffordd cenedlaethol, yn arbennig oherwydd mai nifer cyfyngedig o chwareli yn y DU sy'n gallu darparu carreg ansawdd balast rheilffordd

ac sydd hefyd â chyswllt rheilffordd uniongyrchol. Mae'r safleoedd eraill hyn (wedi eu lleoli'n well i'r rhwydwaith rheilffordd ganolog mewn lleoedd fel Buxton, Swydd Gaerlŷr a Gwlad yr Haf) yn fwy tebyg o ddarparu balast nes bydd wedi'i ddi-hysbyddu, yna Penmaenmawr fydd y ffynhonnell agosaf nesaf o garreg addas.

- 5.4 Yn ogystal, mae yna nifer o brosiectau isadeiledd cenedlaethol yng Nghymru a'r DU sy'n debyg o ddod i fodolaeth yn ystod cyfnod CDLIN Conwy, ac mae'n debygol y bydd mwy o ddefnydd o agregau o chwareli eraill na chapasiti cynhyrchu, yn yr achos hynny bydd y chwareli mwy anghysbell fel y rhai yng Nghonwy yn fwy tebyg o gael eu hailactifadu neu mwy o gynhyrchu i'r gweithredwyr gadw'r cyflenwad i'w cwsmeriaid rheolaidd yn llifo. Mae prosiectau o'r fath yn cynnwys cyswllt rheilffordd HS2 o Birmingham i Crewe, Manceinion ac uwchraddio Prif Gyflenwad Arfordir y Gorllewin i Preston. Mae prosiectau eraill yn cynnwys uwchraddio'r A55/A494 a ffordd newydd yng Nglannau Dyfrdwy, Sir y Fflint, cylchfannau ym Mhenmaenmawr a Llanfairfechan, a'r drydedd Bont dros y Fenai, y cyfan yn creu galw newydd am agregau ar gyfer llenwi, concriid ac o bosibl balast rheilffordd.
- 5.5 Er bod trafodaethau gyda darpar ddatblygwr Wylfa Newydd yn Ynys Môn wedi darhod, mae'n gwbl bosibl y gellid trafod cynnig diwygiedig gyda Llywodraeth y DU yn ystod oes y CDLIN. Roedd trafodaeth wedi bod ar y gweill gyda gweithredwyr chwareli yr oedd posibilrwydd y byddent yn gwneud cais am gontractau i gyflenwi carreg i Orsaf Bŵer Niwclear Wylfa Newydd, rhai o bosibl yn ei gludo ar y ffordd, ac eraill yn defnyddio glanfeydd sydd eisoes yn bodoli neu rai newydd, er mwyn cludo'r cerrig ar gychod i'r cyfleuster glanio morol arfaethedig a oedd i'w adeiladu fel rhan o brosiect Wylfa (er mwyn mynd â thraffig oddi ar yr A55 a'r A5025 yn Ynys Môn).
- 5.6 Gallai'r awydd parhaus am ffermydd gwynt a'r posibilrwydd o waith amddiffyn rhag llifogydd newydd wrth i dywydd garw ddigwydd yn fwy aml ac wrth i lefelau'r môr godi arwain at fwy o alw am agregau tuag at ddiwedd oes y cynllun a thu hwnt.
- 5.7 Mae'r pwynt olaf yn ymwneud â Llechi. Mae nifer o domenni llechi hanesyddol yng Nghonwy, yn bennaf yn ardal Penmachno yn arwain tuag at Blaenau Ffestiniog, a rhai wedi eu lleoli ym Mharc Cenedlaethol Eryri, felly nid ydynt wedi eu cynnwys yn y CDLIN i Gonwy. Mae'n annhebygol iawn y bydd yna alw sydyn i ail-weithio tomenni gwastraff llechi o ystyried faint a leolir yng Ngwynedd, ond gallai gwaith amddiffyn llifogydd afonydd ac adeiladu ffyrdd lleol neu ddatblygiad tyrbîn gwynt o bosibl ddefnyddio'r deunydd hwn mewn pyllau hanesyddol, mewn modd sy'n debyg i athroniaeth y pwll benthyg. Yn ogystal â hyn, gellir defnyddio cerrig grut lleol ar gyfer mynediad cludo nwyddau i ddatblygiadau tyrbîn gwynt.
- 5.8 I grynhoi, ystyrir bod geiriad Polisi MWS/3 yn gyffredinol briodol i sicrhau bod presenoldeb mwynau o bwys economaidd yn cael ystyriaeth ddigonol yn ystod gwneud penderfyniad am geisiadau am ddatblygiad di-fwyn. Byddai'r newidiadau a argymhellir uchod angen newid y mapiau arfaethedig.

Dyraniadau Arfaethedig

- 5.9 Fel rhan o'r CDLI, cafodd effaith dyrannu tir ei ystyried yn erbyn colled mwynau mewn ardaloedd gyda mwyn o bwysigrwydd economaidd. Bydd angen cynnal yr ymarfer hwn ar gyfer unrhyw ardaloedd newydd sy'n cael eu cynnig yn yr Adolygiad. Yn gyffredinol, oherwydd bod y dyraniadau yn fach eu maint ac wrth ymyl datblygiad sensitif presennol, daethpwyd i'r casgliad na fyddai eu dyrannu'n

arwain at golli mwynau pwysig. Mae pwysau datblygu o fewn y Fwrdeistref Sirol yn sylweddol iawn ar hyd yr arfordir, mewn ardaloedd gyda chalchfaen a bydd angen ystyriaeth fanwl drwy'r CDLI newydd i sicrhau nad yw'r mwyn pwysig yn cael ei sterileiddio.

6 Cyflenwad Mwynau

- 6.1 Mae craig wedi'i malu yn cael ei echdynnu ar dri safle o fewn y Fwrdeistref Sirol: Mae calchfaen yn cael ei echdynnu yn Raynes a Llansan Sior a Diorite, mae craig igenaidd yn cael ei echdynnu ym Mhenmaenmawr. Mae yna derfyn amser ar ganiatâd cynllunio ac mae echdynnu angen dod i ben erbyn 2028, 2030 a 2042. Mae yna adnoddau wrth gefn sylweddol yn y chwareli hyn a ganiatawyd ac er gwaethaf y terfynau amser sy'n gysylltiedig â'r gwahanol ganiatâd cynllunio, ar raddfeydd cynhyrchu presennol byddent yn galluogi'r Fwrdeistref Sirol i ddiwallu anghenion a nodwyd dros gyfnod Adolygu'r Cynllun a thu hwnt.
- 6.2 Ystyrir ei bod yn hynod debygol y parheir i weithio'r safleoedd presennol ac y byddai ceisiadau i ymestyn bywydau'r chwareli, mewn egwyddor yn dderbyniol. Mae Polisi MWS/2 yn nodi bod y chwareli presennol ym Mhenmaenmawr, Raynes a Llansan Siôr yn darparu cyfraniad y Sir at y cyflenwad rhanbarthol o graig galed ac mae hyn yn cael ei ystyried yn sefyllfa briodol dros gyfnod yr Adolygiad. Bydd Raynes a Llansan Siôr angen estyniad amser yn ystod cyfnod yr Adolygiad, er ni fyddai hyn yn cynnwys unrhyw ddefnydd tir ychwanegol ac felly ni fyddai angen dyraniad yn y CDLI Newydd. Mae'r Polisi yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i alluogi ceisiadau i ddod ymlaen lle nodwyd yr angen. Mae hyn hefyd yn cael ei ystyried i barhau'n briodol gan y gall yr angen a'r ddarpariaeth newid dros gyfnod yr Adolygiad.
- 6.3 Yn ychwanegol, mae yna gyfleusterau ac adnoddau sy'n angenrheidiol ar gyfer prosesu, trin a dosbarthu mwynau, gan gynnwys glanfeydd, pennau rheilffyrdd a gweithfeydd sypynnu a chaenu. Yn achos Conwy, mae cyfleuster llwytho morol wedi'i leoli yn Chwarel Raynes, a chyfleuster llwytho rheilffordd ym Mhenmaenmawr. Mae gwaith concriid wedi'i gymysgu'n barod a cherrig ffyrdd haenog yn bodoli mewn sawl un o'r chwareli presennol, ond gall gweithfeydd o'r math yma hefyd fod wedi'u lleoli mewn nifer o ystadau diwydiannol yn agos at y marchnadoedd lleol. Dylai polisïau sicrhau y gwneir darpariaeth ar gyfer y fath gyfleusterau, neu lle bo hynny'n ddoeth, eu diogelu ar gyfer defnydd posibl yn y dyfodol.

7 Parthau Clustogi

- 7.1 Mae yna barthau clustogi o amgylch pob un o'r chwareli sy'n helpu i leihau'r gwrthdaro rhwng datblygiad sensitif a gweithrediad chwarela. Mae'r parthau clustogi hyn yn amrywio o ran maint oherwydd agosrwydd datblygiad sensitif presennol ond yn gyffredinol maent yn 200m, yn unol â MTAN 1. Ystyrir bod y parthau clustogi hyn yn fodd priodol nid yn unig i ddiogelu datblygiad sensitif ond hefyd i ddiogelu chwareli o bwys strategol a dylent barhau.

8 Monitro

- 8.1 Bydd angen ystyried y dangosyddion monitro a sbardunau fel rhan o'r Adolygiad. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei fwriad i gyhoeddi Llawlyfr Cynlluniau Datblygu a all ddiweddarau'r Dangosyddion Craidd o fewn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu presennol. O ran mwynau, y Dangosydd Craidd yw: Maint y prif agregau a dynnwyd o'r tir a ganiateir yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau a fynegir fel canran o gyfanswm y capasiti angenrheidiol fel y nodir yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol. Mae'n annhebygol y bydd y Dangosydd hwn yn newid o ystyried y fframwaith polisi o fewn Polisi Cynllunio Cymru a MTAN 1. Er hynny, bydd angen adolygu'r mater hwn a newid y monitro os bydd angen.

9 Materion Trawsffiniol

- 9.1 Mae'r Datganiad Technegol Rhanbarthol yn sicrhau, o ran mwynau, bod yna ddull cydweithredol i ddiwallu'r angen. Nid yw'r Datganiad Technegol Rhanbarthol yn ei gwneud yn ofynnol i Gonwy ddyrannu safleoedd ar gyfer tywod a graean sy'n bresennol o fewn y Fwrdeistref Sirol, yn gyffredinol mae o ansawdd llai ac mewn lleoliadau sy'n bell o'r marchnadoedd a heb fudd masnachol i'w echdynnu. I'r gwrthwyneb, mae'r Fwrdeistref Sirol yn cynhyrchu llawer o graig wedi'i malu, sydd o gymorth i gydbwysu'r angen i awdurdodau eraill wneud dyraniadau o fewn eu CDLI. Mae'r dull rhanbarthol hwn yn helpu i sicrhau bod dyraniadau yn wirioneddol angenrheidiol ac mewn ardaloedd llai cyfyngedig yn amgylcheddol.
- 9.2 Mae'r dull ar gyfer diogelu wedi gwahaniaethu rhwng awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru, yn bennaf o ganlyniad i amseriad cyhoeddi'r Mapiau Diogelu Agregau, er bod yna wahaniaethau mewn daeareg ar draws ardaloedd awdurdodau gwahanol a fyddai'n cyfiawnhau defnyddio dull gwahanol. Yng Ngwynedd, er enghraifft, mae yna dystiolaeth bod yna ddyddodion tywod a graean o ansawdd da y tu allan i'r ardaloedd a nodwyd ar y Mapiau Adnodd Mwynau a Mapiau Diogelu Agreg. Fodd bynnag, mae tystiolaeth yng Nghonwy yn syml yn ail-gadarnhau'r casgliad mai ychydig iawn o dywod a graean o ansawdd da sydd heb ei gyfyngu eisoes.
- 9.3 Dylid nodi bod y datganiad technegol yn cael ei adolygu ar hyn o bryd ac y disgwylir y bydd yn cael ei gyhoeddi yn gynnar yn 2020. Bydd y datganiad technegol rhanbarthol newydd yn gwneud argymhellion ar gyfer unrhyw ddsraniad angenrheidiol i sicrhau cyflenwad digonol o agregau craig wedi'i malu a thywod a graean, gan gynnwys y lleiafswm darpariaeth a argymhellir sef saith mlynedd o dywod a graean a 10 mlynedd o graig wedi'i malu fel y nodir ym Mharagraff 49 MTAN1 ar gael drwy gyfnod unrhyw CDLI, yn cydnabod argaeledd gofodol adnoddau mwynau addas ar draws ardal pob awdurdod lleol. Mae'n bosibl os caiff dosraniadau is-ranbarthol o fwynau eu pennu ar gyfer craig wedi'i malu, tywod a graean ac os na all unrhyw un awdurdod sicrhau'r dosraniadau, mae disgwyl y bydd yr awdurdodau'n cydweithio er mwyn sicrhau'r dosraniadau angenrheidiol o fewn eu CDLI eu hunain. Gallai hyn ofyn am greu a chytuno ar ddatganiad o dir cyffredin rhwng yr awdurdodau lleol perthnasol.
- 9.4 Ar hyn o bryd mae yna fanc tir sylweddol o graig wedi'i malu wrth gefn yng Nghonwy a rhagwelir y bydd yn para yn ystod cyfnod y CDLI llawn ynghyd â'r banc tir 10 mlynedd, ac ni ystyrir y bydd yna angen sylweddol i wneud darpariaeth

ychwanegol. Mae absenoldeb adnoddau tywod a graean nas cyfyngir ac yn fasnachol hyfyw, yn bennaf oherwydd eu bod wedi eu lleoli mewn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd ar hyd y llain arfordirol a gwastadedd afonydd dyffryn Conwy, neu ddyddodion nant ucheldir cul, yn golygu bod unrhyw ddarpariaeth sydd ei hangen o bosibl yng Nghonwy o dywod a graean yn fwy tebygol o gael eu diwallu drwy ddosraniad o Wynedd.

- 9.5 Gan y bydd cyhoeddi'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ddechrau 2020 yn digwydd yn ystod cynhyrchu'r CDLIN Adneuo, byddai'r polisi ac unrhyw ofynion angenrheidiol ar gyfer dosraniadau (dosraniad safleoedd penodol, ardaloedd penodol neu ardaloedd chwilio) yn gorfod cael eu cynnal fel rhan o adolygu a monitro'r CDLI yn y dyfodol.

Atodiad 1 – Cysylltiadau â Pholisi Cynllunio Cymru

Polisi Cynllunio Cymru 10, Pennod 5, Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus. Rhestr Cydymffurfiad. Materion Polisi Mwynau a Gwastraff.	
Paragraff	Mater Polisi
5.10.11 Olew a Nwy	Nid yw echdynnu tanwyddau ffosil yn gydnaws a thargedau datgarboneiddio. Dylai polisiâu anelu at atal a chyfyngu ar effeithiau amgylcheddol echdynnu
5.10.14 Glo	Ni ddylid caniatáu cynigion i echdynnu glo.
5.10.17 Diogelu Glo	Nid oes angen diogelu adnoddau glo sylfaenol.
5.11.6 Economi Cylchol	Dylid ystyried deunyddiau sydd eu hangen neu a gynhyrchir gan ddatblygiad yn fuan yn y broses gynllunio.
5.12.4 Cydbwysedd Deunyddiau ar y Safle	Cydbwysedd torri a llenwi. Datblygwyr i sicrhau cydbwysedd o ran cloddwaith drwy gynllun rheoli deunyddiau naturiol.
5.12.6 Dylunio gyda Deunyddiau Lleol, Amgen neu wedi'u Hailgylchu	Dylai polisiâu annog aildefnyddio ac ailgylchu agregau eilaidd, gwastraff adeiladu, dymchwel a chloddio, a deunyddiau addas eraill.
5.12.8 Dylunio gyda Deunyddiau Lleol, Amgen neu wedi'u Hailgylchu	Ymdriniaethau arloesol o ran ailgylchu, i gynnwys 'chwareli trefol' a iardiau deunyddiau adeiladu.
5.14.2 Mwynau – Cyflenwad a Diogelu'r Amgylchedd	Rôl yr awdurdod cynllunio mewn perthynas â chodi mwynau yw cadw cydbwysedd rhwng y gofyn sylfaenol i sicrhau cyflenwad digonol o fwynau a'r angen i warchod yr amwynder a'r amgylchedd.
5.14.5 Defnyddio Mwynau'n Effeithlon	Sicrhau nad yw mwynau'n cael eu gwastraffu a'u bod yn cael eu defnyddio'n effeithlon.
5.14.7 Diogelu Adnoddau Mwynau a Seilwaith.	Mae'n bwysig bod mynediad at adnoddau mwynau, yn cynnwys deunyddiau eilaidd, wedi'u hailgylchu ac wedi'u carthu'n forol, sydd eu hangen ar gymdeithas, ynghyd â seilwaith cysylltiedig â mwynau i ddiwallu'r angen hwn, yn cael eu diogelu er mwyn atal sterileiddio gan fathau eraill o ddatblygiadau parhaol.
5.14.8 Diogelu Adnoddau Mwynau a Seilwaith.	Dylid rhoi ystyriaeth ofalus i bwysigrwydd y mwynau neu'r seilwaith sy'n ofynnol i gefnogi datblygiad mwynau, megis glanfeydd cyfredol neu

	<p>arfaethedig, terfynellau rheilffordd, cyfleusterau prosesu cysylltiedig a ffatrïoedd llwytho, yn gymharol â'r angen am ddatblygiadau nad ydynt yn cynnwys mwynau, er mwyn osgoi colli seilwaith ac adnoddau y gallai fod eu hangen dros y tymor hir.</p>
5.14.9 Diogelu Adnoddau Mwynau a Seilwaith.	<p>Gan ddefnyddio'r Mapiau Adnoddau Mwynau Cenedlaethol a Mapiau Diogelu Agregau Cenedlaethol Cymru, dylai ardaloedd i'w diogelu gael eu nodi ar fapiau cynigion a dylai polisiau ddiogelu adnoddau mwynau posibl rhag datblygiadau parhaol eraill a fyddai naill ai yn eu sterileiddio neu'n rhwystro gwaith cloddio, neu a allai rwystro gwaith o'r fath yn y dyfodol wrth i dechnoleg newid. Dylai cynlluniau datblygu hybu'r gwaith o integreiddio a chydgyssylltu'r broses cynllunio trafndiaeth a defnydd tir ar gyfer cynhyrchu mwynau, gan gynnwys y cludiant heb fod ar y ffordd os yn bosib a darpariaeth cyfleusterau storio a phrosesu digonol ar gyfer mwynau mewn porthladdoedd a therfynfeydd rheilffordd.</p>
5.14.10 Sicrhau Cyflenwad	<p>Mae sicrhau cyflenwad cynaliadwy o fwynau'n fater strategol sy'n chwarae rhan sylfaenol o ran cefnogi datblygiadau nad ydynt yn ymwneud â mwynau.</p>
5.14.11 Sicrhau Cyflenwad	<p>Y cyfraniad y gallai adnodd ei wneud at y galw yn y DU neu yn Rhanbarthol.</p>
5.14.13 Asesu'r Cyflenwad a'r Galw	<p>Dylai cynlluniau datblygu amlinellu'r strategaeth eang ar gyfer gwaith mwynau a datblygiad cysylltiedig a, cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol, dylid nodi ardaloedd ar gyfer gwaith i'r dyfodol lle gellir cyflawni'r gwaith hwn mewn ffordd gynaliadwy. Dylai strategaeth o'r fath amlinellu disgwyliadau'r awdurdod cynllunio o ran sut mae'r safleoedd mwynau presennol yn gweithredu nawr ac yn y dyfodol.</p>
5.14.14 Asesu'r Cyflenwad a'r Galw	<p>Dylai cynlluniau datblygu asesu, yn unol ag ystyriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, arwyddocâd yr holl fathau o waith mwynau yn yr ardal, gan edrych ar yr angen am fwynau, lle mae'r</p>

	<p>mwynau hynny, ac ar y broses o gynhyrchu pob math o fwynau ac ar y cyflenwadau y mae caniatâd cynllunio wedi'i roi ar eu cyfer. Mae'n hanfodol bod ganddynt gronfa gynhwysfawr a chyfoes o wybodaeth er mwyn hwyluso'r gwaith o gynllunio'n gynaliadwy ar gyfer cloddio am fwynau yn y dyfodol.</p>
5.14.15 Asesu'r Cyflenwad a'r Galw	<p>Dylai cynllun datblygu gynnwys polisiau ar gyfer cynnal banciau tir o fwynau nad ydynt yn cynhyrchu ynni o leiaf 10 mlynedd ar gyfer craig wedi malu a saith blynedd ar gyfer tywod a graean, oni bai y cytunir i awdurdodau eraill gynyddu eu darpariaeth i wneud iawn am hynny.</p>
5.14.17 Safleoedd Anweithredol	<p>Yn achos safleoedd anweithredol â chaniatâd cynllunio ar gyfer gwaith yn y dyfodol, y bernir eu bod yn annhebygol o gael eu defnyddio hyd y gellir rhagweld, dylid nodi safleoedd o'r fath yn y cynllun datblygu, a dylid paratoi strategaeth addas a pholisiau cysylltiedig er mwyn esbonio'r defnydd arfaethedig o'r tir hwnnw yn y dyfodol, yn cynnwys defnyddio gorchmynion gwahardd.</p>
5.14.19 Ardaloedd Gwaith ar gyfer y Dyfodol	<p>Lle bo angen, dylai awdurdodau cynllunio roi arweiniad clir ynghylch lle byddai cloddio am fwynau nad ydynt yn cynhyrchu ynni yn debygol o fod yn dderbyniol, a chynnwys polisiau sy'n gwarchod dynodiadau amgylcheddol neu hanesyddol sensitif ac sy'n diogelu'r amgylchedd ac adnoddau. Mae'r ymagwedd hon yn darparu lefel uchel o sicrwydd i bawb. Dylid cysylltu polisiau a chynigion ag ardaloedd penodol o dir oni bai bod rheswm da pam nad oes modd gwneud hynny, a dylent gwmpasu adnoddau mwynau sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd neu y gall fod angen eu defnyddio hyd y gellir rhagweld. Dylid nodi'r lleoedd hynny'n glir ar fap yn nhrefn safleoedd penodol, ardaloedd a ffefrir, ardaloedd chwilio ac ardaloedd eraill.</p>

5.14.23 Ardaloedd Gwaith ar gyfer y Dyfodol	Nodi adnoddau agregau gradd uchel ac ystyried a oes angen gwarchod yr adnoddau hyn a chysylltiadau rheilffordd posibl i'r adnoddau rhag sterileiddio..
5.14.31 Mwynau Eraill	Ceisiadau am fwynau eraill i'w hasesu yn ôl polisiâu seiliedig ar feini prawf perthnasol i gloddio agregau.
5.14.35 Diogelu Nodweddion a Phriodoeddau Arbennig Lleoedd	Ni ddylid caniatáu datblygiadau mwynau mewn Parciau Cenedlaethol nac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) ac eithrio o dan amgylchiadau eithriadol iawn.
5.14.37 Diogelu Nodweddion a Phriodoeddau Arbennig Lleoedd	Rhaid archwilio'n ofalus unrhyw Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, safleoedd AGA neu RAMSAR sy'n cael eu hystyried.
5.14.38 Diogelu Nodweddion a Phriodoeddau Arbennig Lleoedd	Ystyriaethau parthed Henebion Rhestredig.
5.14.39 Diogelu Nodweddion a Phriodoeddau Arbennig Lleoedd	Dylai awdurdodau cynllunio a'r diwydiant mwynau roi ystyriaeth i'r angen i warchod maint ac ansawdd cyflenwadau dŵr wyneb a dŵr daear
5.14.41 Diogelu Nodweddion a Phriodoeddau Arbennig Lleoedd	Dylid anelu ble bynnag bosib at gadw i'r isafswm unrhyw effeithiau andwyol ar amaeth sy'n digwydd o ganlyniad i ddatblygiad mwynau.
5.14.43 Lleihau Effeithiau Cloddio am Fwynau a Gwaith Cysylltiedig	Dylai cynlluniau datblygu nodi'r meini prawf ar gyfer cynigion mwynau yn glir, er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael effaith annerbyniol o andwyol ar yr amgylchedd ac ar amwynder trigolion lleol. Rhaid mynd i'r afael â'r materion canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • mynediad a chreu traffig • sŵn • rheoli llygredd aer • cael gwared ar wastraff mwynau • rheoli gwaith ffrwydro • draenio tir, effaith ar adnoddau dŵr daear ac atal cyflenwadau dŵr rhag cael eu llygru • ymyrraeth weledol a thirweddau cyffredinol; • effaith ar safleoedd cadwraeth natur, geo-amrywiaeth ac asedau hanesyddol, • ansefydlogrwydd tir

	<ul style="list-style-type: none"> • hyrwyddo defnydd o dir ansefydlog, diffaith neu lygredig, a hyrwyddo gwaith i'w drin • effaith gronnu; a • gwaith adfer, ôl-ofal ac ôl-ddefnydd
5.14.44 Clustogfeydd	Dylai awdurdodau cynllunio ddefnyddio clustogfeydd i warchod ardaloedd o amgylch gweithfeydd mwynau sy'n bodoli eisoes a gweithfeydd arfaethedig o'r fath
5.14.45 Clustogfeydd	Er mwyn osgoi gwrthdaro rhwng gweithfeydd mwynau a defnyddio tir at ddibenion eraill, dylid dynodi clustogfeydd mewn cynlluniau datblygu o amgylch safleoedd mwynau sy'n bodoli eisoes neu rai arfaethedig
5.14.47 Estyniadau	Dylai estyniadau i weithfeydd mwynau sy'n bodoli, boed yn estyniadau amser, ochrol neu ddyfnder, gael eu hystyried yn yr un modd â cheisiadau am safleoedd newydd.
5.14.50 Adfer ac Ôl-ofal	Dylai adfer ac ôl-ofal fod yn fodd i o leiaf gynnal ansawdd y tir a'r tirweddau a gymerwyd er mwyn cloddio mwynau, ac yn ddefnyddiol dylai ei wella.
5.14.54 Ôl-ddefnydd	Egwyddorion arweiniol a safonau gofynnol ar gyfer adfer.
5.14.55 Ôl-ddefnydd	Lle bo hynny'n briodol, dylai cynlluniau datblygu, ar sail asesiadau o'r seilwaith gwyrdd, gan gynnwys cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth lleol a strategaethau cefn gwlad, roi arweiniad ar ôl-ddefnydd dymunol a safonau adfer. Bydd y math o ôl-ddefnydd a ddewisir yn dibynnu ar lawer o ystyriaethau, gan gynnwys strategaeth gyffredinol y cynllun datblygu, yn ogystal â'r lleoliad, y tirlurf terfynol, argaeledd ac ansawdd pridd neu ddeunyddiau adfer eraill a'r defnydd a wneir o dir cyfagos..

